

# Telerau ac Amodau Cyflenwyr

## DIFFINIADAU A DEHONGLIADAU

1.1 Yn y Cytundeb hwn, bydd gan y geiriau canlynol yr ystyrion canlynol:

Bydd "Cytundeb" yn golygu'r 'Cytundeb hwn gan gynnwys unrhyw Gytundeb Fframwaith', y Telerau ac Amodau Contract hyn ar gyfer Cytundebau Fframwaith ac unrhyw Atodlen ac Atodiad a phob Atodlen ac Atodiad sydd ynghlwm a/neu y cyfeirir atynt yma.

Bydd "Atodiadau" yn golygu unrhyw Atodiadau a'r holl Atodiadau sydd ynghlwm ac y cyfeirir atynt yn y Cytundeb.

Bydd "dosbarthu" yn golygu'r weithred o ddsbarthu Nwyddau i'r Cyfeiriad/Cyfeiriadau Dosbarthu.

"Cyfeiriad Dosbarthu" fydd y pwynt/pwyntiau dosbarthu fel y nodir ar yr Archeb Brynu neu ddulliau archebu eraill y cytunwyd arnynt rhwng y Coleg a'r Cyflenwr.

Bydd "Cytundeb Fframwaith" yn golygu'r Cytundeb Fframwaith a wnaed rhwng y Cyflenwr a'r Coleg sy'n rheoli'r defnydd o'r Telerau ac Amodau hyn.

Bydd "nwyddau" yn golygu'r holl nwyddau, deunyddiau a/neu gynhyrchion a gyflenwir gan y Cyflenwr mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn.

Bydd "pris" yn golygu'r pris a nodir yn yr amserlen brisio.

Bydd "Dull Amrywio Pris" yn golygu'r dull i'w ddefnyddio mewn unrhyw amrywiad o'r pris.

Bydd "Archeb Brynu" yn golygu archeb brynu/archebion prynu a roddir o bryd i'w gilydd i'r Cyflenwr gan y Coleg.

Bydd "Atodlenni" yn golygu unrhyw Atodlen a phob Atodlen sydd ynghlwm ac y cyfeirir atynt yn y Cytundeb.

Bydd "gwasanaethau" yn golygu unrhyw weithgaredd a gweithred a phob gweithgaredd a gweithred a gyflawnir gan y Cyflenwr mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn. Oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd y term Gwasanaethau hefyd yn cynnwys y weithred o Ddosbarthi.

Bydd “manyleb” yn golygu safon yr ansawdd sy’n ofynnol gan y Coleg fel y’i diwygir a’i hysbysir i’r Cyflenwr o bryd i’w gilydd.

Bydd “cyflenwr” yn golygu’r unigolyn neu’r cwmni a enwir yn y Cytundeb hwn ac y rhoddir Archeb Brynu/Archebion Prynu iddo.

Bydd “cyflenwad” yn golygu pob agwedd a gweithgaredd sy’n gysylltiedig â darparu nwyddau yn unol â’r gofynion hyn.

Bydd “tymor” yn golygu’r dyddiad y bydd y Cytundeb hwn yn cychwyn tan y dyddiad dod i ben neu’r dyddiad terfynu fel y’i diffinnir yma.

Bydd “Telerau ac Amodau” yn golygu’r telerau ac amodau hyn ac unrhyw Atodiadau a/neu Atodlenni fel y’u diffinnir yma.

Bydd “Coleg” yn golygu Coleg Gŵyr Abertawe.

1.2 Unless the context requires otherwise, the singular shall include the plural, plural the singular, and any words importing persons shall include firms, companies and corporations. Oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd yr unigol yn cynnwys y lluosog, ac i’r gwrthwyneb, a bydd unrhyw eiriau sy’n golygu personau yn cynnwys cwmnïau a chorfforaethau.

1.3 Bydd unrhyw gyfeiriad yn y Cytundeb hwn at unrhyw ddarpariaeth statud yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at y ddarpariaeth honno fel y’i diwygir neu ei ailweithredir o bryd i’w gilydd.

1.4 Mae’r penawdau yn y Cytundeb hwn er hwylustod y partïon yn unig ac ni chaniateir eu defnyddio mewn unrhyw ffordd i effeithio ar ddehongliad neu luniad y Cytundeb hwn.

## **2. DARPARIAETHAU CYFFREDINOL**

2.1 Bydd yr holl Nwyddau a gyflenwir gan y Cyflenwr sy’n deillio o ofynion y Cytundeb hwn yn cydymffurfio â’r Telerau ac Amodau hyn. Yn ogystal, bydd y Telerau ac Amodau hyn yn disodli neu ddirymu’r holl delerau, datganedig neu ymhlyg, a gyflwynir gan y Cyflenwr, ar unrhyw adeg a/neu o dan y telerau y gallai Nwyddau neu Wasanaethau tebyg fod wedi’u cyflenwi o’r blaen i’r Coleg.

2.2 Bydd pob Archeb Brynu a roddir gan y Coleg o dan delerau'r Cytundeb Fframwaith yn ffurfio contract ar wahân rhwng y Coleg sy'n rhoi'r Archeb Brynu a'r Cyflenwr.

2.3 Os bydd Cyflenwr yn derbyn Archeb Brynu a roddwyd gan y Coleg yn ysgrifenedig neu drwy berfformiad, bydd hyn yn gyfystyr â chydabod a derbyn gofynion y Cytundeb hwn yn llawn gan y Cyflenwr, a bydd unrhyw delerau ac amodau anghyson neu ddilydol a roddir gan y Cyflenwr ar unrhyw ffurf neu gyfrwng o gwbl yn cael eu hystyried yn ddi-rym ac yn anorfodadwy ac ni fyddant yn cael unrhyw effaith o gwbl ar swyddogaeth neu ofynion y Cytundeb hwn nac ar y partïon i hyn oni bai bod y ddau barti wedi cytuno'n benodol i'r gwrthwyneb.

2.4 Yn ychwanegol at ofynion cymal 2.3 i hyn, oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig rhwng y partïon, bydd y Telerau ac Amodau hyn yn disodli a dirymu unrhyw delerau a/neu amodau anghyson ym mhob Archeb Brynu a roddir i'r Cyflenwr o ran y pryniannau a wnaed o dan y Cytundeb hwn.

### **3 CWMPAS Y CYTUNDEB**

Mae'r Cyflenwr trwy hyn yn cytuno, yn ôl Telerau ac Amodau'r Cytundeb hwn, i:

3.1 Cyflenwi Nwyddau i'r Coleg yn ddilyffethair ac yn unol â'r Archeb Brynu/Archebion Prynu.

3.2 Dosbarthu'r Nwyddau yn unol â'r gofynion a nodir yn yr Archeb Brynu/Archebion Prynu a roddir i'r Cyflenwr.

3.3 Darparu'r holl wybodaeth a/neu ddata fel sy'n ofynnol gan y Cytundeb hwn neu gan unrhyw offeryn statudol perthnasol. Bydd darpariaeth o'r fath yn cael ei gwneud erbyn dyddiad dechrau'r dosbarthiad neu'r perfformiad fan bellaf oni chytunir yn ysgrifenedig fel arall.

3.4 Bernir bod y Cyflenwr wedi archwilio lleoliadau'r holl ddosbarthiadau Nwyddau ac wedi deall natur a maint gofynion y Cytundeb hwn ac ni fydd yn gwneud unrhyw hawliad yn seiliedig ar ei fethiant i wneud hynny ac eithrio os bydd y fath fethiant cael ei achosi yn uniongyrchol gan wallau neu hepgoriadau mewn gwybodaeth a ddarperir yn ysgrifenedig gan y Coleg i'r Cyflenwr.

## **4 ANSAWDD**

4.1 Mae'r Cyflenwr yn gwarantu y bydd Nwyddau a gyflenwir i'r Coleg yn cydymffurfio â'r manylebau a/neu'r disgrifiadau a nodir yn y Cytundeb hwn. Yn ogystal, mae'r Cyflenwr yn gwarantu y bydd y Nwyddau yn addas at y diben a fwriadwyd, y byddant o ddefnyddiau a chreffftwaith cadarn, y byddant o ansawdd a gwydnwch boddhaol, yn rhydd o unrhyw ddiffygion, yn gudd neu fel arall, ac yr un fath ag unrhyw sampl a gyflenwyd i'r Coleg ac a gymeradwywyd gan y Coleg.

4.2 Yn ychwanegol at ofynion cymal 4.1 yma, mae'r Cyflenwr yn gwarantu y bydd yr agweddau hynny ar y Cytundeb hwn sy'n cynnwys Gwasanaethau fel y'u diffiniwyd yn y Cytundeb hwn yn cael eu cyflawni yn unol â'r safonau a nodwyd yma. Yn absenoldeb unrhyw safonau penodedig o'r fath neu os nad yw'r safonau a nodwyd yn berthnasol i unrhyw/pob elfen o'r Gwasanaethau, rhaid cyflawni'r Gwasanaethau, neu'r elfennau hynny o'r Gwasanaethau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y safonau a nodwyd yma, i safon yr ystyrir ei bod yn cydymffurfio â'r safonau gorau a gymhwysir fel arfer o fewn diwydiant neu broffesiwn y Cyflenwr ei hun.

4.3 Mae'r Cyflenwr yn gwarantu ymhellach y bydd y Nwyddau a gyflenwir ac unrhyw Wasanaethau cysylltiedig a ddarperir yn cydymffurfio ym mhob ffordd â'r holl statud, archebion a rheoliadau perthnasol sydd mewn grym ar ddyddiad y Cyflenwad neu'r Perfformiad, ac na fydd defnydd y Coleg o'r Nwyddau neu'r Gwasanaethau yn amharu ar unrhyw batent, nod masnach, eiddo deallusol nac unrhyw hawliau tebyg eraill.

4.4 Bydd y Cyflenwr yn indemnio'r Coleg yn erbyn unrhyw gostau, colledion, rhwymedigaethau neu dreuliau sy'n gallu codi o ganlyniad i unrhyw achos o dorri gwarantau'r 'Cyflenwr' a gynhwysir yng Nghymal 4 yma.

## **5 DOSBARTHU**

5.1 Bydd dyddiadau a/neu amleddau a/neu amodau Cyflenwad neu Berfformiad yn cydfynd a'r hyn a nodir yn yr Archeb Brynu/Archebion Prynu o'r adeg y'i roddir i'r Cyflenwr oni chytunir yn ysgrifenedig fel arall.

5.2 Rhaid i'r Cyflenwr sicrhau bod y Nwyddau'n cael eu pacio a'u cyflenwi mewn modd sy'n cyrraedd y Cyfeiriad Dosbarthu mewn cyflwr da, a bod y pecynnu a'r cyflenwad yn cydymffurfio â'r holl statudau a rheoliadau perthnasol.

## **6 EIDDO A RISG**

6.1 Bydd risg mewn Nwyddau a ddsberthir yn trosglwyddo i'r Coleg sy'n archebu'r Nwyddau pan gaiff y Nwyddau eu dosbarthu i'r Cyfeiriad Dosbarthu yn unol â gofynion dosbarthu'r Coleg, yn y nifer/swm cywir ac mewn cyflwr da. Ni fydd y Coleg yn cymryd unrhyw risg ar ôl dosbarthu Nwyddau os cânt eu derbyn mewn cyflwr sydd wedi'i ddifrodi neu os oes unrhyw anghysondebau neu amrywiannau o unrhyw fath rhwng nifer/swm neu faint y Nwyddau a ddsberthir a'r nifer/swm neu faint a ddisgrifir ar y ddogfennaeth ddsbarthu nes bydd achos y difrod neu faint yr anghysondeb yn cael ei ddarganfod a nes bydd cost a rhwymedigaeth yn cael eu cytuno o ran cael Nwyddau newydd neu eu hatgyweirio.

6.2 Bydd eiddo yn y Nwyddau yn cael ei drosglwyddo i'r Coleg ar ôl i'r Coleg dalu am y Nwyddau yn llawn.

6.3 Ni fydd y rhagdybiaeth o Risg neu Eiddo fel y'i diffinnir yn y cymal hwn nac unrhyw daliad o gwbl yn niweidio hawliau gwrthod y Coleg nac unrhyw hawl neu rwymedi arall, p'un ai o dan y Cytundeb hwn neu yn ôl y gyfraith.

## **7 DERBYN**

7.1 Er gwaethaf gofynion cymal 6 yma, mae'r Coleg yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw Nwyddau a gyflenwir neu Wasanaethau a berfformir sydd, yn ei farn ef, yn methu â chydymffurfio'n llawn â'r gofynion a nodwyd yn y Cytundeb hwn neu ar yr Archeb Brynu a roddwyd i'r Cyflenwr.

7.2 Os bydd gwrthodiad fel y diffinnir yma, bydd gan y Coleg yr hawl i ddewis cael gwared ar Nwyddau neu ohirio neu derfynu Gwasanaethau, ac i brynu'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau yn rhywle arall. Cyn arfer yr hawl i brynu yn rhywle arall, bydd y Coleg yn rhoi cyfle rhesymol i'r Cyflenwr ddisodli'r Nwyddau a wrthodwyd neu ail-berfformio'r Gwasanaethau a wrthodwyd a darparu Nwyddau a/neu Wasanaethau sy'n cydymffurfio'n llawn â'r gofynion yma.

7.3 Ac eithrio pan gytunir ar feini prawf perfformiad a datrys rhwng y partion yma a'u hymgorffori mewn man arall yn y Cytundeb hwn, ac er gwaethaf cyfleoedd Cyflenwyr o dan 7.2 yma, os bydd y Cyflenwr yn methu â darparu Nwyddau newydd neu Wasanaethau wedi'u hail-berfformio sy'n diwallu'r gofynion yma o fewn cyfnod o bedwar diwrnod ar ddeg (14) o ddyddiad y gwrthodiad cychwynnol gan y Coleg, bydd

gan y Coleg yr hawl i derfynu Archeb Brynu a roddwyd ar unwaith heb rwymedigaeth trwy roi rhybudd i'r Cyflenwr a bydd gan y Coleg yr hawl i derfynu'r Cytundeb hwn yn unol â'i delerau.

## **8 PRIS A THALU**

8.1 Nodir y pris sy'n daladwy yn yr Atodlen Brisio a bydd yn cynnwys yr holl daliadau. Ni chaniateir unrhyw amrywiad i'r Pris rhwng y Cyflenwr a'r Coleg ac eithrio yn unol â'r Dull Amrywio Prisiau.

8.2 Bydd pob Pris yn sefydlog am gyfnod dim llai na 12 mis o unrhyw Gytundeb dilynol. Wedi hynny os bydd unrhyw gynnydd neu ostyngiad i'r Contractwr bydd y ddau barti yn cytuno ar ddull o amrywio prisiau, a fydd yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio symudiad cyfartalog y Mynegai Prisiau Manwerthu am y tri mis blaenorol.

8.3 Pan fo TAW neu unrhyw dreth neu doll arall yn berthnasol, rhaid i'r Cyflenwr ddarparu anfoneb dreth ddilys, gyda'r dreth neu'r trethi hynny wedi'u heitmeiddio. Rhaid talu'r arian sy'n ddyledus yn unol â thelerau talu safonol y Coleg neu yn yr Archeb Brynu/Archebion Prynu a roddwyd i'r Cyflenwr ar yr amod bod anfonebau'n cynnwys y cyfeiriad cywir, ac wedi'u cwblhau a'u cyflwyno'n gywir yn unol â'r gofynion yma. Rhaid dychwelyd pob anfoneb, sy'n cael ei chwblhau neu ei chyflwyno'n anghywir, i'r Cyflenwr heb ei thalu er mwyn ei chywiro a'i hailgyflwyno.

## **9 RHWYMEDIGAETHAU AC INDEMNIAID**

9.1 Bydd y Cyflenwr yn atebol am y Coleg a'i weithwyr, ei asiantiaid a'i isgontractwyr a bydd yn eu hindemnio a'u digolledu yn erbyn unrhyw/yr holl rwymedigaethau sy'n deillio o anaf personol neu farwolaeth neu golled neu ddifrod i unrhyw eiddo a all ddeillio o unrhyw weithred neu anweithred, esgeulus neu fel arall neu gamymddwyn bwriadol y Cyflenwr, ei weithwyr, ei asiantiaid neu ei isgontractwyr allan o, neu o ganlyniad i, unrhyw weithrediadau o dan y Cytundeb hwn, a bydd y Cyflenwr yn indemnio'r Coleg yn erbyn pob gweithred, galw, iawndal, cost, ffioedd a threuliau sy'n codi mewn cysylltiad â hynny, cyhyd â, fodd bynnag, na fydd unrhyw beth yn yr amod sy'n gallu gwneud y Cyflenwr yn atebol am unrhyw anaf neu ddifrod sy'n deillio o unrhyw weithred neu wall esgeulus gan y Coleg, neu ei asiantiaid neu ei isgontractwyr priodol.

9.2 Yn ogystal â chynnal lefelau digonol o yswiriant fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, bydd y Cyflenwr yn gyfrifol am weithredu a chynnal yswiriant sy'n ddigonol ar gyfer yr holl risgiau y mae modd eu rhagweld yn rhesymol a'r rhwymedigaethau posibl sy'n deillio o'r Cytundeb hwn. Bydd tystiolaeth foddhaol o'r yswiriant hwn a thâl premiynau cyfredol ar gael i'r Coleg ar gais.

## **10 FORCE MAJEURE**

10.1 At ddibenion y Cytundeb hwn, bydd "Force Majeure" yn golygu unrhyw ddigwyddiad(au) neu amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y naill barti neu'r llall sy'n rhwystro perfformiad dyledus goblygiadau'r parti hwnnw a, thrwy arfer pob diwydrwydd rhesymol, nad yw'r parti hwnnw yn gallu ei atal ar yr amod na fydd y prinder deunyddiau llafur ynddo ei hun yn gyfystyr â Force Majeure.

10.2 Os yw'r naill barti neu'r llall yn cael ei atal neu ei rwystro rhag neu wrth gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn oherwydd Force Majeure, rhaid iddo roi rhybudd ar unwaith i'r parti arall gan nodi'r amgylchiadau sy'n gyfystyr â Force Majeure a'r maint. Yna bydd rhwymedigaethau'r partion yn cael eu hatal am gyhyd ag y gall amgylchiadau Force Majeure barhau ac ni fydd y naill barti na'r llall yn atebol i'r llall am dorri neu fethu â chyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn os na all wneud hynny o dan amgylchiadau Force Majeure. Rhaid i barti yr effeithir arno gan Force Majeure ddefnyddio pob ymdrech resymol i leihau effeithiau Force Majeure a rhaid iddo aildddechrau cyflawni ei rwymedigaethau ar unwaith cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl ar ôl cael gwared ar amgylchiadau Force Majeure.

10.3 Os yw Force Majeure yn achosi i'r Cyflenwr atal unrhyw un o ofynion y Cytundeb hwn am gyfnod parhaus o un diwrnod ar hugain (21), caiff y Coleg ganslo neu derfynu unrhyw Archeb Brynu sy'n ddyledus a bydd hawl gan y Coleg, trwy rybudd ysgrifenedig i'r Cyflenwr, derfynu'r Cytundeb Fframwaith yn unol â'i delerau.

## **11 GWARANTIAD AC ATEBOLRWYDD DIFFYGION**

11.1 Bydd y Cyflenwr, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn atgyweirio neu amnewid unrhyw un o'r Nwyddau sydd neu sy'n dod yn ddiffygiol yn ystod y cyfnod o 12 mis o'r dyddiad cyflenwi os yw diffygion o'r fath yn digwydd wrth ddefnyddio'r Nwyddau'n gywir ac yn digwydd oherwydd dyluniad diffygiol, data gwallus a ddarparwyd gan y Cyflenwr, deunyddiau neu grefftwaith annigonol neu ddiffygiol neu unrhyw achos arall o dorri gwarantau Cyflenwyr, yn ddatganedig neu ymhlyg. Bydd

atgyweiriadau a rhannau newydd eu hunain yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau uchod am gyfnod o 12 mis o'r dyddiad atgyweirio neu amnewid.

11.2 Ni fydd y Cyflenwr yn atebol am unrhyw atgyweiriadau neu amnewidiadau os ac i'r graddau y mae nam neu ddifrod o'r fath yn cael ei achosi gan esgeulustod profedig y Coleg neu ei asiantiaid neu ei isgontractwyr priodol.

## **12 SEFYLLFA'R PRIF SEFYDLIAD**

12.1 Mae'r Cyflenwr yn cydnabod ac yn cytuno nad oes unrhyw rwymedigaeth ar y Coleg i roi Archeb Brynu o dan y Cytundeb hwn. Mae'r Cyflenwr yn cydnabod bod unrhyw ddata neu wybodaeth a roddir iddo gan y Coleg mewn perthynas â'r nifer ddisgwylidig o Archebion Prynu i'w rhoi o dan y Cytundeb hwn yn amcangyfrifon yn unig, yn seiliedig ar yr amcangyfrifon gorau a/neu ddata hanesyddol, ac na ellir dal y Coleg yn gyfrifol am nifer wirioneddol yr Archebion Prynu a roddir o dan y Cytundeb hwn. Felly mae'r Cyflenwr yn cytuno nad oes gan y Coleg unrhyw rwymedigaeth iddo mewn perthynas â nifer (neu brinder) yr Archebion Prynu a roddir gan y Coleg o dan y Cytundeb hwn.

12.2 Mae'r Coleg wedi sefydlu'r Cytundeb hwn er budd y Coleg oherwydd o bryd i'w gilydd bydd am roi Archebion Prynu o dan y Cytundeb hwn. Bydd y contract sy'n codi pan roddir Archeb Brynu gan y Coleg (fel y disgrifir yng Nghymal 2.2) rhwng y Coleg a'r Cyflenwr. Yn unol â hynny (ac eithrio mewn perthynas ag unrhyw gontract sy'n codi pe bai'r Coleg, gan weithredu fel Sefydliad Cyfranogol, yn rhoi Archeb Brynu Nwyddau yn unol â Chymal 2.2 a rhwymedigaeth y Coleg o dan y contract hwnnw), ni fydd y Coleg yn barti i'r contract rhwng y Cyflenwr a'r Sefydliad Cyfranogol ac ni fydd gan y Coleg unrhyw atebolrwydd sy'n deillio o'r gweithredoedd neu'r anweithredoedd neu esgeulustod neu ddiffyg yn y Sefydliad Cyfranogol mewn cysylltiad â chontractau o'r fath neu mewn cysylltiad â rhoi Archeb Brynu.

## **13 TERFYNU**

13.1 Bydd gan y Coleg yr hawl i derfynu unrhyw Archeb Brynu a gyhoeddir ganddo, yn yr un modd bydd gan y Coleg yr hawl i derfynu'r Cytundeb hwn:

13.1.1 yn ddi-oed trwy rybudd i'r Cyflenwr os bydd y Cyflenwr yn cael ei ddyfarnu neu'n mynd yn fethdalwr neu os bydd unrhyw orchymyn yn cael ei wneud neu ei basio ar gyfer dirwyn i ben neu ddiddymu'r Cyflenwr, neu fod y Cyflenwr yn ymrwymo i unrhyw



gyfansoddiad neu drefniant er budd ei gredydwy'r neu os penodir derbynnydd gweinyddol, derbynnydd, rheolwr neu swyddog tebyg mewn perthynas â holl asedau'r Cyflenwr neu unrhyw ran o'r asedau.

13.1.2 yn ddi-oed trwy rybudd i'r Cyflenwr os yw'r Cyflenwr yn methu â chyflawni neu gadw at unrhyw un o delerau'r Cytundeb hwn mewn unrhyw ffordd berthnasol ac os yw'n methu ag unioni toriad y mae modd ei unioni cyn pen 14 diwrnod neu os oes toriad y mae modd ei unioni ar fwy nag un achlysur er gwaethaf y ffaith bod y Cyflenwr wedi cymryd camau i unioni toriad o'r fath ar achlysuron blaenorol.

13.1.3 yn ddi-oed trwy rybudd i'r Cyflenwr os yw'r Cyflenwr yn methu ag unioni unrhyw fethiant i gyflenwi Nwyddau a/neu Wasanaethau derbyniol yn unol â gofynion y Cytundeb hwn.

13.1.4 ar unrhyw adeg trwy roi o leiaf 60 diwrnod o rybudd ysgrifenedig i'r Cyflenwr.

13.1.5 os yw'r Cyflenwr yn euog neu'n cael ei ddyfarnu gan gorff cymwys ei fod wedi torri unrhyw reoliadau statudol.

13.2 Yn amodol ar gymal 13.3 ni fydd unrhyw dâl nac iawndal yn ddyledus i'r Cyflenwr mewn perthynas ag unrhyw gyfnod ar ôl terfynu'r Cytundeb hwn ac eithrio arian a gronwyd yn flaenorol ac yn gywir o dan y Cytundeb hwn.

13.3 Os bydd terfyniad yn unol â 13.1.4 yma, bydd atebolrwydd y Coleg yn gyfyngedig i'r Pris am unrhyw Nwyddau a brynir gan y Cyflenwr ac a fwriedir yn glir ar gyfer cyflawni'r Archeb Brynu wedi'i therfynu a lle na ellir defnyddio'r Nwyddau hynny o dan unrhyw gytundebau Cyflenwyr eraill neu gyfleoedd busnes p'un a ydynt yn bodoli eisoes neu'n rhai arfaethedig.

13.4 Bydd terfynu yn digwydd heb ragfarn i unrhyw hawliau neu rwymedïau cronedig nac unrhyw oblygiadau parhaus (boed yn ddatganedig neu'n ymhlyg) y Cyflenwr neu'r Coleg

## **14 EIDDO, EIDDO DEALLUSOL A PHATENTAU**

14.1 Mae'r Cyflenwr yn cytuno y bydd unrhyw eiddo, gwybodaeth a/neu eiddo deallusol a gyflenwir gan y Coleg o dan neu mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn yn perthyn i'r sefydliad sy'n darparu eiddo, gwybodaeth a/neu eiddo deallusol o'r fath a bydd y

Cyflenwr yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod yr holl hawliau o'r fath yn cael eu hamddiffyn lle nad ydynt eisoes yn gyhoeddus.

14.2 Mae'r Cyflenwr trwy hyn yn cytuno i indemnio'r Coleg yn erbyn unrhyw gostau, hawliadau neu gamau gweithredu sy'n codi o unrhyw achos o dorri patent, dyluniad cofrestredig, nod masnach, hawlfraint neu unrhyw fath arall o hawliau eiddo deallusol sy'n deillio o brynu neu ddefnyddio unrhyw Nwyddau a gyflenwir o dan y Cytundeb hwn ac eithrio pan gyflenwir y Nwyddau i fanyleb benodol y Coleg.

## **15 HYSBYSEBU A CHYFRINACHEDD**

15.1 Ni fydd y Cyflenwr nac asiantiaid neu isgontractwyr y Cyflenwr yn cyfeirio o gwbl at y Cytundeb hwn, y Coleg na'i gysylltiedigion mewn unrhyw gyfrwng o gwbl heb ganiatâd penodol ymlaen llaw gan y Coleg.

15.2 Ni fydd y Cyflenwr nac asiantiaid neu isgontractwyr y Cyflenwr yn defnyddio unrhyw ddelweddau na lluniau na defnyddio unrhyw wybodaeth a roddwyd / gasglwyd gan y Coleg ac eithrio pan fyddant naill ai yn gyhoeddus neu'n hanfodol ar gyfer cyflawniad dyledus y Cytundeb hwn.

## **16 HEPGORIADAU**

16.1 Ni fydd unrhyw fethiant neu esgeulustod ar ran y Coleg na'i gynrychiolwyr i orfodi unrhyw un o delerau ac amodau'r Cytundeb hwn yn cael ei ystyried fel hepgoriad oni nodir yn benodol ei fod yn hepgoriad ysgrifenedig gan y Coleg. Ni fydd hepgoriad gan y Coleg ar un achlysur yn cael ei ddehongli'n awtomatig fel pe bai'n caniatáu hepgoriad o dan unrhyw amgylchiadau ar unrhyw adeg yn y dyfodol.

## **17 TORADWYEDD**

17.1 Bydd unrhyw ddarpariaeth yn y Cytundeb hwn a ddatgenir yn annilys neu'n anorfodadwy gan unrhyw awdurdod neu lys cymwys a chymeradwy yn cael ei ystyried yn doradwy ac ni fydd yn effeithio ar ddarpariaethau eraill y Cytundeb hwn, a fydd yn parhau heb eu heffeithio.

## **18 HAWLIAU TRYDYDD PARTÏON**

18.1 Ac eithrio fel y darperir yn benodol yn y Telerau ac Amodau hyn, ni fydd y Telerau ac Amodau hyn yn creu unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd

Partïon) 1999 ac ni fydd modd i unrhyw barti arall eu gorfodi heblaw am y Cyflenwr a'r Coleg mewn perthynas ag unrhyw Archeb Brynu a gyhoeddir gan y Coleg.

## **19 ASEINIO**

19.1 Caiff y Coleg drosglwyddo, aseinio, adnewyddu, gwaredu neu is-gontractio'r Cytundeb hwn i gyd neu unrhyw ran ohono i awdurdod cyhoeddus arall a gyfansoddwyd neu a awdurdodwyd i gyflawni swyddogaethau a/neu gyfrifoldebau'r Coleg.

19.2 Ni fydd y Cyflenwr yn aseinio, adnewyddu, is-gontractio, trosglwyddo na chael gwared ar y Cytundeb hwn, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, heb gydsyniad ysgrifenedig y Coleg ymlaen llaw.

## **20 CYTUNDEB CYFAN**

20.1 Mae'r Cytundeb hwn yn cynnwys cytundeb a dealltwriaeth gyfan y partïon ac mae'n disodli unrhyw gytundeb blaenorol rhwng y partïon sy'n gysylltiedig â phynciau'r Cytundeb hwn.

20.2 Mae pob un o'r partïon yn cydnabod ac yn cytuno, wrth ymrwymo i'r Cytundeb hwn, nad yw'n dibynnu, ac na fydd ganddo rwymedi mewn perthynas ag unrhyw warant neu ddealltwriaeth cynrychiolaeth datganiad (a wnaed yn esgeulus neu'n ddiniwed), ar unrhyw berson (p'un a yw'n barti i'r Cytundeb hwn ai peidio) ac eithrio fel y nodir yn benodol yn y Cytundeb hwn.

20.3 Yr unig rwymedi sydd ar gael i barti am dorri'r gwarantau fydd torri contract o dan delerau'r Cytundeb hwn.

20.4 Ni fydd unrhyw beth yn yr is-gymal hwn yn gweithredu nac yn eithrio unrhyw atebolrwydd am dwyll.

## **21. GWADU PARTNERIAETH**

21.1 Ni fydd y Cytundeb hwn yn gweithredu er mwyn creu partneriaeth, perthynas asiantaeth neu fenter ar y cyd o unrhyw fath rhwng y partïon.

22.1 Bydd y Cytundeb hwn yn cael ei ddehongli a'i lywodraethu ym mhob ffordd gan gyfreithiau Cymru a Lloegr a bydd yn destun awdurdodaeth unigryw llysoedd Cymru a Lloegr.